National Assembly for Wales / Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Health and Social Care Committee / Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill / Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)
Evidence from Mark Drakeford AM, Member in charge of the Regulation and Inspection of the Social Care (Wales) Bill - RISC AI 09 / Tystiolaeth gan Mark Drakeford AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) - RISC AI 09

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/MD/0523/15

David Rees AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

2 Mehefin 2015

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Mai 2015 am y cysylltiadau rhwng adolygiad Dr Flynn o Ymgyrch Jasmine a Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Rwy'n cytuno bod canfyddiadau'r adolygiad yn ystyriaeth bwysig iawn wrth inni ddatblygu ein cyfundrefn reoleiddio. Rydw i, ynghyd â Phrif Weinidog Cymru, wedi cyfarfod â Dr Flynn sawl gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf i glywed am sut mae'r adolygiad wedi bod yn datblygu, ac i glywed am ei syniadau diweddaraf am sut y bydd angen i'n systemau ymateb i'w chanfyddiadau.

O'r cychwyn cyntaf trafodwyr tri dyhead canolog gan Dr Flynn a minnau ar gyfer deddfwriaeth yn seiliedig ar ei gwaith:

- Symud atebolrwydd o fewn ein system ddeddfwriaethol, fel bod y sawl sy'n berchen ar wasanaethau ac sydd ar eu hennill o ddarparu gwasanaethau yn cael eu dal yn atebol iddynt;
- Bod yn rhaid i'n system ddeddfwriaethol ganiatáu i gamau gan reoleiddwyr fynd y tu hwnt i leoliad neu wasanaeth unigol, fel bod modd symud darparwyr gwael oddi ar y gofrestr yn gyfan gwbl.
- Nodi mewn statud fynediad defnyddwyr a theuluoedd i wybodaeth am y gwasanaethau a'r gofal y maent hwy neu'n hanwyliaid yn eu derbyn.

Rwyf o'r farn bod y Bil yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn uniongyrchol, gan ddiwygio'n sylweddol sut rydym yn rheoleiddio gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Fel y byddwch yn gwybod, ysgrifennodd Dr Flynn at y Prif Weinidog ym mis Rhagfyr 2014 yn amlinellu rhai o'i dyheadau mwy manwl ym maes deddfwriaeth. Roedd y llythyr hwn yn adeiladu ar sgyrsiau blaenorol ac yn cynrychioli, fel yr awgrymodd Dr Flynn, agenda posibl i'w hystyried yn y dyfodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk
Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Bydd y dyheadau hyn ac eraill yn cael eu hadlewyrchu yn adolygiad Dr Flynn, y bwriedir ei gyhoeddi yn ystod hanner cyntaf mis Gorffennaf. Byddaf yn hapus i ysgrifennu at y Pwyllgor eto yn dilyn y cyhoeddiad hwnnw i fanylu ar sut y credaf fod y Bil hwn yn bodloni'r argymhellion y gall Dr Flynn eu nodi yn ei hadroddiad.

Yn gywir

Mark

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services